




# Lleiniau Datblygu Ar Werth

Safle Cyflogaeth Strategol Dwyrain Cross Hands
Sir Gaerfyrddin



- Prydlesau Hir
- Ar werth drwy gytuniad preifat
- 12 llain datblygu â gwasanaeth ar gael

Parth Twf
**Cross Hands**
Growth Zone

Lleolir Safle Cyflogaeth Strategol Dwyrain Cross Hands yn Sir Gaerfyrddin a Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

Mae'r safle cyflogaeth mawr hwn yn gyfle rhagorol:

- 10 hectar o dir datblygu
- Amgylchedd parc busnes modern mewn lleoliad eithriadol.
- Cysylltiadau trafnidiaeth rhagorol â mynediad uniongyrchol i rwydweithiau ffyrdd yr A48 a'r M4
- Hyrwyddo datblygiadau o ansawdd uchel
- Potensial ar gyfer cymorth ariannol.




## Cynllunio

Mae gan Safle Cyflogaeth Strategol Dwyrain Cross Hands ganiatâd cynllunio ar gyfer dosbarthiadau defnydd B1 (Busnes) a B8 (Storio a Dosbarthu). Ni chaniateir defnydd manwerthu na Chownter Masnachu. Rhoddir sylw penodol i ddibenion sy'n cyd-fynd ag amcanion ehangach y safle, gan flaenoriaethu dibenion yn y sectorau canlynol:

- Gweithgynhyrchu uwch
- Creadigol
- Ynni a'r Amgylchedd
- Technoleg Bwyd-Amaeth
- Gwaith Ariannol a Phroffesiynol

Dylid cyflwyno'r holl gynigion datblygu i'r Cyngor eu hystyried o ran addasrwydd a chymhwysedd cyn cyflwyno Cais Cynllunio. Bydd angen Caniatâd Cynllunio ar bob cynnig datblygu cyn gallu caniatáu Prydles.

## Costau Cyfreithiol

Bydd pob parti yn gyfrifol am ei gostau cyfreithiol ei hun sy'n gysylltiedig â phrynu'r lleiniau.

## Deiliadaeth

Prydles hir am 250 o flynyddoedd. Bydd y lleiniau datblygu yn cael eu gwerthu drwy Brydles Adeilad, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r prynwr wneud y canlynol:

1 Cwblhau ei ddatblygiad safle o fewn 12 mis i'r Brydles gael ei ganiatáu.

2 Talu am y llain fel taliad Premiwm ar ddechrau'r Brydles, neu fel Rhent Tir blynyddol. Bydd Prydlesau ar sail Rhentu Tir yn cael eu hadolygu bob 5 mlynedd.

3 Talu tâl am wasanaeth ar gyfer cyfrannu at gostau cynnal a chadw'r ystad.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i werthu'r safleoedd drwy dendro cystadleuol os bydd nifer o geisiadau.




## Y Lleiniau/ Gwasanaethau

Mae 12 llain ar gael yn syth sy'n amrywio mewn maint o 0.40 erw i 1.67 erw. Mae gan bob llain fynediad i garthfosydd dŵr brwnt a dŵr wyneb, trydan, nwy, a dŵr o'r prif gyflenwad. Gosodwyd dwythellau band eang deublyg er mwyn caniatáu i ddatblygwyr fod yn hyblyg o ran dewis cyflenwr.

Disgwylir i amlinelliad y datblygiad gynnwys 35-45% o bob llain.

## Disgrifiad

| Llain | Hectarau | Erwau |
|---|---|---|
| 1 | 0.67 | 1.67 |
| 2 | 0.51 | 1.26 |
| 3 | **Gwerthwyd** | **Gwerthwyd** |
| 4 | **Gwerthwyd** | **Gwerthwyd** |
| 5 | 0.31 | 0.76 |
| 6 | 0.56 | 1.39 |
| 7 | **Gwerthwyd** | **Gwerthwyd** |
| 8 | 0.13 | 0.31 |
| 9 | 0.62 | 1.52 |
| 10 | **Gwerthwyd** | **Gwerthwyd** |

| Llain | Hectarau | Erwau |
|---|---|---|
| 11 | **Gwerthwyd** | **Gwerthwyd** |
| 12 | **Gwerthwyd** | **Gwerthwyd** |
| 13 | 0.47 | 1.15 |
| 14 | 0.28 | 0.70 |
| 15a | 0.26 | 0.66 |
| 15b | 0.45 | 1.21 |
| 15c | 0.40 | 0.99 |
| 16 | 0.59 | 1.45 |
| 17 | **Gwerthwyd** | **Gwerthwyd** |

Parth Twf
**Cross Hands**
Growth Zone

Parth Twf
**Cross Hands**
Growth Zone

## Lleoliad

Mae lleoliad y safle'n cynnig manteision amlwg, gan gynnwys mynediad hawdd i'r dwyrain a'r gorllewin ar hyd yr A48 / M4 ac i ganolfannau poblogaeth lleol. Gellir cyrraedd terfynfa nwyddau yn Noc Penfro o fewn 60 munud, a gellir cyrraedd munud, a gellir cyrraedd Bryste o fewn 90 munud.

Mae'r safle wedi'i leoli oddeutu 10 milltir i'r gogledd o Lanelli ac oddeutu 15 milltir i'r gorllewin o Abertawe ar hyd yr M4 a'r A48. Fel arfer mae'n cymryd 20 munud i deithio o Gaerfyrddin a Llanelli a 25 munud o Abertawe. Mae'n cymryd tua awr i gyrraedd Caerdydd.









## I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

inwardinvestment@carmarthenshire.gov.uk

▸ **www.sirgar.llyw.cymru/cartref/busnes/datblygu-a-buddsoddiad**

## Amserau Gyrru Cyfartalog

| | |
|---|---|
| Birmingham | 2 awr 50 munud |
| Bryste | 1 awr 40 munud |
| Caerdydd | 1 awr |
| Llundain | 3 awr 25 munud |
| Manceinion | 4 awr |
| Portsmouth | 3 awr 15 munud |
| Abergwaun | 1 awr 10 munud |
| Doc Benfro | 55 munud |

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
**Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop**
**European Regional Development Fund**

RHYBUDD PWYSIG Yn amodol ar gontract ac argaeledd: Bwriad y manylion hyn yw rhoi disgrifiad teg o'r eiddo, ond maent yn rhoi cyfarwyddyd cyffredinol yn unig. Ni ellir gwarantu eu cywirdeb a dylech gadarnhau hwnnw drwy archwiliad neu drwy fodd arall. Mae rheidrwydd ar Gyngor Sir Caerfyrddin i ystyried yr holl gynigion sy'n dod i law mewn perthynas â'r eiddo hwn hyd nes y caiff y contractau eu cyfnewid. Nid oes rheidrwydd ar y Cyngor Sir i dderbyn y cynnig uchaf nac unrhyw gynnig.

Dyluniwyd gan Litchfield Morris www.litchfieldmorris.co.uk